


## System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

### **Lawrlwytho Data 30/06/2022**

Diolch i'r **77%** o Bractisiau ledled Cymru sydd eisoes wedi mewngofnodi i WNWRS y chwarter hwn ac wedi dilysu eu data. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, mewngofnodwch i WNWRS cyn gynted â phosibl a gwiriwch fod yr holl gofnodion staff ar gyfer eich Practis yn gywir. Ffordd hawdd o wneud hyn yw cynhyrchu adroddiad sy'n creu taenlen Excel o gofnodion staff eich Practis lle gallwch wirio'r holl fanylion ar un dudalen. I wneud hyn:

- Dewiswch y 'Data Reporting Module'
- Dewiswch 'Reports', yna 'Excel Reports'
- Dewiswch 'Practice' yn 'Organisation Type'
- Dechreuwch deipio enw eich practis ac yna dewiswch eich practis yn 'Select Organisation'
- Yn 'Report Type' dewiswch 'Practice Staff Report'
- Dewiswch 'Generate Report'
- Agorwch a diwygiwch yr adroddiad Excel, gan hidlo'r 'leavers' a gwirio bod y cofnodion 'active' yn gywir

Os cewch unrhyw broblemau mewngofnodi neu os oes gennych unrhyw adborth ar WNWRS, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy'r cyfeiriad e-bost isod.



### **Ffocws ar: Rolau'r Aelodau Staff**

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi lansio rôl staff newydd yn ddiweddar yn WNWRS. Mae rôl 'Gweinyddwr' bellach ar gael i'w dewis yn adran Gweinyddol/Anghlinigol y wefan. Adolygwch eich tîm Gweinyddol/Anghlinigol a phenderfynwch a fyddai'r teitl hwn yn addas i unrhyw un yn eich tîm sydd wedi cael ei labelu'n flaenorol yn rôl 'Arall'.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol, os ydych yn cyflogi glanhawyr neu arddwyr, yna dylid eu nodi yn 'Ystadau ac Ategol' yn hytrach nag 'Arall'.

Os oes gennych ddirprwy reolwr neu reolwr cyllid yn eich Practis, sicrhewch eu bod wedi'u nodi yn 'Rheolwr' yn y WNWRS.

### **Adnoddau ar gyfer Rheolwyr Practisiau**

Yn ogystal â'n [gwefan Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol](#), mae adnoddau ychwanegol a allai fod o ddiddordeb i chi a thîm eich Practis.

Mae Gwasanaethau Gofal Sylfaenol PCGC ([nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk](#)) yn darparu ystod o wasanaethau i Bractisiau Meddygon Teulu, gan gynnwys Rhestr Cyflawnwyr Meddygol, Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Cofrestru Cleifion. [Gwasanaethau Meddygon Teulu - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#)

Mae Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC ([GMPI@wales.nhs.uk](#)) ar gael i helpu gydag unrhyw ymholiadau penodol ar Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI). [Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol \(GMPI\) - Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#)

Mae ein cydweithwyr yn AaGIC wedi cynhyrchu amrywiaeth o ddogfennau a allai fod o gymorth i'ch Practis yn ei [Becyn Cymorth i Reolwyr a Gweinyddwyr Practisiau \(Saesneg yn unig\)](#)

Mae gan Lywodraeth Cymru sawl adnodd i helpu recriwtio a chefnogi cadw meddygon teulu ym maes Gofal Sylfaenol. [Manteision gweithio ym maes ymarfer cyffredinol | LLYW.CYMRU](#)  
[Rheoli practis cyffredinol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)

### **Syniadau ac Awgrymiadau**

Os ydych am archebu meddyg teulu Locwm, y ffordd hawsaf o wneud hyn yw drwy bostio'r sifft ar GP Wales (Locum Hub Wales). Mae postio ac archebu drwy'r safle yn sicrhau bod holl ofynion GMPI ar gyfer meddygon teulu locwm wedi'u bodloni'n awtomatig a gall eich Practis elwa pe bai pryder yn cael ei godi. Mae gan y safle restr o feddygon teulu Locwm hefyd a hoffai weithio yn eich Practis o dan y tab 'Fy Meddygon Locwm'.

[Mae awgrymiadau cyffredinol ar gael ar sut i ddefnyddio GP Wales \(Locum Hub Wales\) yn ei sylfaen wybodaeth gynhwysfawr.](#)

